

# Datblygu llafaredd a chyfranogiad dysgwyr drwy gyfrwng drama a chwarae rôl.

## Prosiect Ymchwil Gweithredol

### Cefndir a chyd-destun yr ymchwil

Pwrpas y prosiect oedd i ddarganfod os yw gweithredu technegau chwarae rôl a drama yn arddull addas i annog cyfranogiad dysgwyr sy'n gyndyn i gyfrannu yn ystod gwersi, ac i hybu sgiliau llafaredd. Targedwyd pum dysgwr o flwyddyn 5, sy'n cael anhawster wrth geisio mynegi eu hunain ar lafar, yn ogystal â wynebu diffyg hyder wrth weithio ar lafar yn y dosbarth.

### Cynllun sylfaenol

1. Cynnal rhagchwiliad cynnar i gynyddu dealltwriaeth o'r ffocws ac i ystyried barn a safbwyntiau cydweithwyr.
2. Annog ac hybu cyfranogiad a llafaredd ymysg pum dysgwr o flwyddyn 5. Gweithredu ymyriad sy'n cynnwys cyfres o wersi sydd wedi ei gynllunio'n fanwl.
3. Casglu data gan y dysgwyr, cyd-weithwyr a llenyddiaeth academaidd, a'i ddadansoddi.
4. Dadansoddi data er mwyn amlygu themâu pendant, gwerthuso a chyflwyno'r canfyddiadau.



### Dulliau casglu data

**Holiadur i gydweithwyr:** Cyfle i gydweithwyr gynnig syniadau a barn proffesiynol am ffocws yr ymchwil a rhai o'r strategaethau caiff ei chyflwyno.

**Arsylwadau o'r gwersi ymyriad:** Roedd yr athro ymchwilydd yn arswiliq dysgwyr yn ystod y gwersi ymyriaeth, yn cofnodi gwybodaeth nodweddiadol ac asesu lefelau cyfranogiad y dysgwyr dan sylw.

**Grŵp ffocws:** Cynnwys llais y disgybl yn y data, a deall safbwyntiau'r dysgwyr o'r broblem ac effeithiolrwydd yr ymyriad.

"Because you're with all your friends, they can help you get over it. And your friends and with you so you don't get ashamed or anything." (Plentyn BL.5)

"Role-play is an effective active learning strategy; it encourages participation among passive learners and promotes the retention of material". (Stevens, 2014)

### Cyfeiriadau

Stevens, R. (2014) Role-play and student engagement: reflections from the classroom. *Teaching in Higher Education*. 20 (5) td.481-492

### Ymyriad

Cynlluniwyd ymyriad a fyddai'n annog cyfranogiad y dysgwyr ar lafar, a hynny mewn grwpiau ble fyddai'r plant yn gyfforddus tra'n cydweithio a chyfoedion agos. Roedd pedair weithgaredd mewn sesiwn, a oedd mewn dilyniant pwrpasol er mwyn hybu hyder yn raddol.

#### Cam 1: Darllen/ cyflwyno stori.

Y cam cyntaf oedd darllen stori oedd yn ddifrif i'r dysgwyr ac yn cydio'r dychymyg. Defnyddiwyd straeon fer oedd yn berthnasol i'r gwaith thema, gan gynnwys straeon T.Llew Jones.



#### Cam 2: Lluniau Llonydd

Gweithgaredd ble mae'r plant yn ail-greu digwyddiad nodweddiadol o'r stori gan osod eu hunain mewn rhan pendant yn llonydd. Cawn ychwanegu deialog i'r gyfoethogi.

#### Cam 4: Gêm Ganol

Cyfle arall i ddangos ein dealltwriaeth o'r cymeriadau a'r personoliaeth, drwy drafod y math o berson ydyw. Tasg sy'n fwy annibynnol ac yn deillio o'r gweithgareddau grŵp yn raddol.

#### Cam 3: Cysgodi Cymeriadau

Dyma dasg sy'n mynnu dealltwriaeth o deimladau a safbwyntiau cymeriadau'r straeon. Mae'r plant angen uniaethu a chyfiawnhau eu syniadau gan gynnig tystiolaeth o'r stori.

### Canfyddiadau

Amlygir yr ymchwil ffactorau sy'n bwysig i athrawon ei hystyried, megis ymwybyddiaeth o agweddau dysgwyr at ddysgu, ac effeithiolrwydd strategaethau sy'n hybu cyfranogiad dysgwyr.

- ~ Mae teimlad o bryder ymysg dysgwyr wrth iddynt geisio mynegi eu hunain o flaen eraill.
- ~ Gweithgareddau ymarferol yn caniatáu mynediad i addysg a sgiliau llafaredd i ddysgywr llai hyderus.
- ~ Mae'r sampl o ddysgwyr yn fwy hyderus i gyfrannu a chyfathrebu gyda chyfoedion agos gan nad ydynt yn poeni am feirniadaeth.

### Effaith ôl-ymchwiliad

Yn sicr mae cynnal yr ymchwil wedi cynyddu ymwybyddiaeth am broblemau sy'n medru effeithio ar ddysgu o fewn y dosbarth megis diffyg hyder neu pryder ymysg dysgwyr. Yn y dyfodol, bydd cynnal ymchwiliadau tebyg yn fuddiol er mwyn datblygu arddull addysgu ymhellach. Mae cydweithwyr wedi dangos diddordeb yn y broses ac yn awyddus i weithredu rhai o'r syniadau gan weithredu ymagwedd cydweithredol ymysg cyfoedion proffesiynol.